GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

<table>
<tr><td>Teitl yr adroddiad:<br><br>Report title:</td><td colspan="4">Ymateb Rheolwyr i Adolygiad Annibynnol (Adolygiad Cyflym o Benodiadau Dros Dro i Swyddi Gweithredwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr)</td></tr>
<tr><td>Adrodd i:<br><br>Report to:</td><td colspan="4">Pwyllgor Tâl</td></tr>
<tr><td>Dyddiad y Cyfarfod:<br><br>Date of Meeting:</td><td colspan="4">14 Tachwedd 2023</td></tr>
<tr><td>Crynodeb Gweithredol:<br><br>Executive Summary:</td><td colspan="4">Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ymateb y rheolwyr i'r adroddiad annibynnol a gynhyrchwyd yn adolygu sefyllfa bresennol uwch rolau dros dro ledled PBC hyd at 20 Mehefin 2023. Roedd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 17 Mai a 6 Mehefin 2023. Yr adroddiad hwn yw ymateb y rheolwyr i'r adolygiad hwnnw.</td></tr>
<tr><td>Argymhellion:<br><br>Recommendations:</td><td colspan="4">Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r sefyllfa bresennol a chyflwyno adborth ar unrhyw elfennau o'r adroddiad hwn ar gyfer mireinio'r broses o reoli rolau dros dro sydd ar waith yn y sefydliad.</td></tr>
<tr><td>Arweinydd Gweithredol:<br><br>Executive Lead:</td><td colspan="4">Jason Brannan, Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl</td></tr>
<tr><td>Awdur yr Adroddiad:<br><br>Report Author:</td><td colspan="4">Nick Graham, Cyfarwyddwr Cyswllt Optimeiddio'r Gweithlu</td></tr>
<tr><td>Pwrpas yr adroddiad:<br><br>Purpose of report:</td><td>I'w Nodi<br>For Noting<br>☐</td><td colspan="2">I Benderfynu arno<br>For Decision<br>☒</td><td>Am Sicrwydd<br>For Assurance<br>☐</td></tr>
<tr><td>Lefel sicrwydd:<br>Assurance level:</td><td>Arwyddocaol<br>Significant<br>☐<br><br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives</td><td>Derbyniol<br>Acceptable<br>☐<br><br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</td><td>Rhannol<br>Partial<br>☐<br><br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives</td><td>Dim Sicrwydd<br>No Assurance<br>☐<br><br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>No confidence / evidence in delivery</td></tr>
<tr><td colspan="5">Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:<br><br>Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cysylltiad ag Amcan/Amcanion Strategol:<br><br>Link to Strategic Objective(s):</td><td colspan="3">Cynorthwyo â'r ymateb i'r Mesurau Arbennig</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **Goblygiadau rheoleiddio a chyfreithiol:**<br><br>***Regulatory and legal implications:*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Yn unol â WP7, a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks( cross reference to the BAF and CRR)*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Cysylltiadau â risgiau BAF:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:***<br>*(or links to the Corporate Risk Register)* | Nid yw'n berthnasol |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Camau Nesaf:**<br>Gweithredu argymhellion<br>***Camau Nesaf/Next Steps:***<br>Rhoi'r argymhellion ar waith | |

# Pwyllgor Tâl – 14 Tachwedd 2023

## Adolygiadau Annibynnol Mesurau Arbennig - Ymateb y Rheolwyr

### Adolygiad Cyflym o Benodiadau Dros Dro i Swyddi Gweithredwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

## 1) Cefndir a Chyd-destun

Mae cefndir yr adolygiad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau gwreiddiol archwiliad mewnol a gynhaliwyd yn ystod gwanwyn 2021 a roddodd sicrwydd 'cyfyngedig' ynghylch y broses o benodiadau dros dro i uwch rolau ledled BIPBC. Roedd archwiliad mewnol pellach a gynhaliwyd yn gynnar yn 2023 ac a oedd yn canolbwyntio ar drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer recriwtio swyddogion gweithredol parhaol a thros dro ac uwch swyddi, yn rhoi sicrwydd 'cyfyngedig' unwaith eto.
Roedd cyd-destun yr adolygiad yn ymwneud â diffyg gwelededd y penodiadau hyn i'r hyn a elwid bryd hynny, yn Bwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth a'r arfer cyffredin o benodiadau dros dro maith gydag estyniadau. Tynnwyd sylw hefyd at faint y defnydd a wnaed o benodiadau dros dro a gorddibyniaeth y sefydliad ar y dull hwn i gwmpasu uwch rolau allweddol yn ehangach yn BIPBC.

## 2) Trosolwg o'r Sesiwn Ddatblygu

Cafwyd sesiwn ddatblygu gadarnhaol. Cydnabuwyd bod y sefydliad wedi adnabod y sefyllfa ac wedi ymgysylltu ac ymrwymo i leihau nifer y rolau dros dro yn y sefydliad. Byddai'n rhannu adroddiadau misol rheolaidd â'r Pwyllgor Tâl gan gynnwys y niferoedd presennol, y cyfraddau presennol, taflwybrau lleihau parhaus, ceisiadau am estyniadau ac unrhyw ddiffyg cydymffurfio â phrosesau'r gweithlu neu'r prosesau cyllid sy'n cyd-fynd â'r defnydd o uwch rolau dros dro.

Cytunwyd y byddai cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu i amlinellu sut y gellid cyflawni'r argymhellion perthnasol a oedd o fewn rheolaeth y Bwrdd Iechyd (R5-R11), a'r amserlenni i wneud hyn. Y gweithlu perthnasol a thimau cyllid sydd â'r dasg o oruchwylio datblygiad y cynllun gweithredu. Mae'r cynllun hwn yn bwydo i'r cylchoedd Mesurau Arbennig y mae BIPBC yn ymwneud â nhw ar hyn o bryd ac y bydd yn ymgymryd â nhw yn ystod 23/24.

## 3) Themâu Allweddol o'r Adolygiad

| Themâu yn deillio o'r adolygiadau a gafwyd hyd yn hyn | Perthnasol i'r adolygiad hwn<br>*Rhowch X yn y blwch os yw'n berthnasol* |
|---|---|
| **1. Data, Gwybodaeth a Mewnwelediad** | ☒ |

| | |
|---|---|
| Sicrhau ein bod yn defnyddio dull sefydliad cyfan gan flaenoriaethu ymyriadau sy'n gwella ein hadnoddau a'n galluoedd data, gwybodaeth a mewnwelediad. Bydd hyn yn allweddol ar gyfer galluogi gwelliannau cynaliadwy yn ogystal â'n cynorthwyo i nodi gwasanaethau a allai beri pryder yn y dyfodol. | |
| **2. Diwylliant**<br>Diffinio, ymgysylltu ac ymrwymo i'r gwaith hirdymor sydd ei angen i wella diwylliant y sefydliad. Ei integreiddio i'n cynllun datblygu sefydliadol ehangach ar draws Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu. | ☒ |
| **3. Rheoli Risg**<br>Adolygu a mireinio ein hymagwedd a'n hawydd at risg, gan gynnwys sut mae risgiau'n cael eu nodi, eu rheoli, eu lliniaru, eu hadrodd a'u monitro. | ☐ |
| **4. Cynnwys Cleifion, Teuluoedd a Gofalwyr**<br>Un dull cydgysylltiedig o gynnwys ac ymgysylltu â'n cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr i'r eithaf, gan ddefnyddio eu profiadau i arwain gwelliannau parhaus yn ein gwasanaeth. | ☐ |
| **5. Model Gweithredu**<br>Sicrhau bod ein model gweithredu wedi'i gynllunio i gyflawni ein blaenoriaethau strategol, gydag eglurder i bawb ar bob lefel o'r sefydliad am rolau a chyfrifoldebau, systemau a phrosesau o fewn uwch adrannau a gwasanaethau PBC Gyfan. | ☐ |
| **6. Llywodraethu a Chydymffurfiaeth yn y Sefydliad**<br>Sicrhau gwelededd a dealltwriaeth am arferion gorau llywodraethu ar draws y sefydliad a sicrhau y cedwir ato. | ☒ |
| **7. Cynllunio Integredig**<br>Agwedd integredig a ddeellir yn dda, at gynllunio fel disgyblaeth, yn ogystal â chyfraniadau at ein proses gynllunio flynyddol. | ☐ |

## 4) Argymhellion

Gofynnir i'r pwyllgor **GYMERADWYO** ymateb y rheolwyr yn barod i'w gyhoeddi yn y parth cyhoeddus.

## Tabl 1: Cynllun Gweithredu Ymateb y Rheolwyr

*Dilëwch y blychau ar gyfer y themâu nad ydynt yn berthnasol i'r adolygiad hwn*

| Data, Gwybodaeth a Mewnwelediad | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyf** | **Cam gweithredu** | **Arweinydd** | **Terfyn amser** | **Statws RAG[1]** | **Diweddariad ar gynnydd** |
| **R10** | Mae angen i BIPBC sicrhau mwy o werth o'i ddefnydd o uwch staff dros dro a sicrhau y gwneir trosglwyddiadau priodol. | Jason Brannan | Chwefror 2024 | | Lansiwyd y llawlyfr 'Gadael yn Dda' yn Haf 2022 fel rhan o'r rhaglen 'Cryfach Gyda'n Gilydd', ac erbyn hyn daw o dan y Fframwaith Arweinyddiaeth Integredig. Roedd wedi'i dargedu'n wreiddiol at uwch staff a oedd yn gadael o dan y Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd (VERS). Mae'r llawlyfr bellach ar gael i'r holl staff, gan gynnwys staff dros dro, ac anogir adrannau i'w ddefnyddio i sicrhau trosglwyddiad effeithiol. |
| **R11** | Dylid cynnal adolygiad o gynlluniau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer (i) datblygu talent gweithlu, (ii) mynd i'r afael â'r amrywiol fylchau capasiti ail haen a (iii) dylai gweithwyr proffesiynol CIPD cymwys leihau nifer yr uwch benodiadau dros dro (anweithredol).. | Jason Brannan | Mawrth 2024 | | Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud fel rhan o'r gwaith parhaus i ddatblygu talent gweithlu gyda ffocws penodol ar sut rydym yn datblygu ein cyfleoedd ar gyfer secondiad a darparu cymorth cofleidiol i staff yn y rolau hyn a sut y caiff cynlluniau datblygu eu rhoi ar waith i gefnogi staff gweithredol sy'n 'sefyll fyny' i rolau uwch. |

[1] **Diffiniadau o statws RAG: Gwyrdd**: Ar y trywydd cywir, **Oren**: Ddim ar y trywydd cywir ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd cywir **Coch**: Ddim ar y trywydd cywir a heb unrhyw fesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd cywir

| Diwylliant | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyf** | **Cam gweithredu** | **Arweinydd** | **Terfyn amser** | **Statws RAG**[1] | **Diweddariad ar gynnydd** |
| **R8** | Mae angen newid diwylliannol yn BIPBC, fel nad yw defnyddio uwch staff dros dro am gyfnodau estynedig ar gyfraddau dyddiol uchel iawn bellach yn cael ei ystyried yn opsiwn rhagosodedig ar gyfer rheoli swyddi gwag. | Jason Brannan | Ebrill 2024 | | Bydd y Fframwaith Datblygu Arweinyddiaeth Integredig (ILDF) yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd erbyn diwedd 2023, a bydd yn nodi'r cam dilynol o gynllunio olyniaeth a datblygu talent ar gyfer lefelau rheoli VSM, haen 2 a haen 3. Mae hyn wedi'i anelu'n benodol at feithrin ein harweinwyr ein hunain yn hytrach na recriwtio gweithwyr asiantaeth dros dro ar gost uchel. Disgwylir y bydd y cyfnod datblygu arweinyddiaeth yn dechrau yn gynnar yn 2024<br><br>Mae mesurau gweithredol hefyd wedi'u rhoi ar waith i gyfyngu ar hyd estyniadau contract i uchafswm o 4 mis. Mae angen cymeradwyaeth Weithredol luosog ar gyfer pob cais. |
| **R9** | Mae angen atgyfnerthu'r gallu i 'wirio a herio' cynigion a phenderfyniadau drwy drefniadau llywodraethu cadarn. | Jason Brannan | Chwefror 2024 | | Yn gynnar yn 2023, fe'i gwnaed yn ofynnol i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Chyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu gymeradwyo pob cais am uwch rolau dros dro. Cyflwynwyd mwy o fesurau rheoli sefydliad yn ystod haf 2023. Bellach, mae angen asesiad effaith llawn ar gyfer pob cais i recriwtio i uwch rolau dros dro neu i'w hymestyn, a chânt eu hadolygu gan Banel o'r Gweithredwyr bob wythnos. |

[1] **Diffiniadau o statws RAG: Gwyrdd**: Ar y trywydd cywir, **Oren**: Ddim ar y trywydd cywir ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd cywir **Coch**: Ddim ar y trywydd cywir a heb unrhyw fesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd cywir

| Llywodraethu a Chydymffurfiaeth yn y Sefydliad | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyf** | **Cam gweithredu** | **Arweinydd** | **Terfyn amser** | **Statws RAG**[1] | **Diweddariad ar gynnydd** |
| **R5** | Cynnwys maes gorfodol yn yr E-Ffurflen Cymeradwyaeth Rôl Dros Dro (IAR) er mwyn i'r Ymgeisydd nodi cyfiawnhad cadarn dros gael rôl dros dro. Bydd y naratif hwn yn nodi isafswm y manylder y dylid ei ddarparu ac yn rhoi gwybodaeth fanwl ynghylch yr hyn y disgwylir i'r rôl dros dro ei gyflawni | Jason Brannan | Chwefror 2024 | | Cwblhawyd y cam penodol i ddiweddaru'r ffurflen gais am Gymeradwyaeth Rôl Dros Dro (IAR) ym mis Awst 2023. Fodd bynnag, ers hynny mae'r mesurau Rheoli Sefydliadau bellach yn ei gwneud hi'n ofynnol cynnwys papur Asesiad Effaith llawn ym mhob cais am rôl dros dro, a bydd yn cael ei adolygu gan banel adolygu'r Weithrediaeth sy'n cyfarfod yn wythnosol. |
| **R6** | Mae angen rhagor o ddiwygio ar y Cylch Gorchwyl drafft diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor Tâl a Chylchoedd Gwasanaeth (RaTS) cyn i'r Bwrdd ei gymeradwyo. | Phil Meakin | Gorffennaf 2023 | | Cymeradwywyd y Cylch Gorchwyl newydd ar gyfer REMCOM (RaTS gynt) yn yr haf 2023 |
| **R7** | Fel rhan o'r adolygiad parhaus o Gofrestr Risg Gorfforaethol BIPBC, mae angen archwilio'r risgiau sy'n ymwneud â defnyddio uwch rolau dros dro. | Jason Brannan | Chwefror 2024 | | Mae'r gwaith o adolygu a diweddaru cofrestr risg corfforaethol Gwasanaethau Pobl ar y gweill a bydd wedi'i gwblhau erbyn Rhagfyr 2023. |

[1] **Diffiniadau o statws RAG: Gwyrdd**: Ar y trywydd cywir, **Oren**: Ddim ar y trywydd cywir ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd cywir **Coch**: Ddim ar y trywydd cywir a heb unrhyw fesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd cywir